# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 9 Tachwedd 2020

Amser: 10.00 - 11.27

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6473

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS<br>David Melding AS |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Gruffydd Owen (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau negyddol arfaethedig nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3B

### 2.1 pNeg(5)33 - Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon y dylai'r weithdrefn negyddol gael ei chymhwyso.

### 2.2 pNeg(5)35 - Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon y dylai'r weithdrefn negyddol gael ei chymhwyso.

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(5)640 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd, ac i dynnu sylw at faterion sy’n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

### 3.2 SL(5)644 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau statudol y mae angen i’r Senedd gydsynio â hwy (Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol)

### 4.1 SICM(5)36 - Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2020

Nododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a’r sylwadau cysylltiedig.

### 4.2 SICM(5)38 - Rheoliadau Ymadael â’r Undeb Ewropeaidd (Addasiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a’r sylwadau cysylltiedig. Nododd y Pwyllgor hefyd fod y Gweinidog wedi cyflwyno cynnig am ddadl. Cytunodd y Pwyllgor i gwblhau adroddiad y tu allan i'r cyfarfod a fyddai'n cael ei osod cyn y ddadl ynghylch cydsyniad.

## 5 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 5.1 WS-30C(5)191 - Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â’r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau cysylltiedig, yn benodol bod anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch a oes angen cydsyniad. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurder pellach o ran y datganiad hwn a'r datganiad ysgrifenedig a ystyriwyd yn eitem 5.2.

### 5.2 WS-30C(5)192 - Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â’r UE) (Rhif 2) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurder pellach o ran y datganiad hwn a'r datganiad ysgrifenedig a ystyriwyd yn eitem 5.1.

### 5.3 WS-30C(5)193 - Rheoliadau Glanedyddion (Diwygiadau) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau.

### 5.4 WS-30C(5)195 - Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Diwygio etc.) (Ymadael â’r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau.

### 5.5 WS-30C(5)197 - Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig i dynnu sylw at y datganiad ysgrifenedig a'r rheoliadau cysylltiedig.

### 5.6 WS-30C(5)198 - Rheoliadau Mewnforio a Masnachu Cynhyrchion Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â’r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Bil Pysgodfeydd y DU

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am eglurhad pellach ynghylch y wybodaeth a ddarperir gan y Gweinidog ynghylch Gorchymyn adran 109 sydd i ddod, a fydd yn cael ei wneud o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### 6.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.

### 6.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu llythyr pellach at y Gweinidog ynghylch gwaith cyffredinol y Pwyllgor o ystyried y Rheoliadau.

### 6.4 Llythyr gan y Prif Weinidog: Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 8 Trafodaeth ar Femoranda Cydsyniad Offeryn Statudol

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog mewn perthynas â chyflwyno cynigion cydsyniad, a chytunodd i ysgrifennu at y Llywydd. Nododd y Pwyllgor hefyd y llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar Reoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020, a chytunwyd i gwblhau adroddiad y tu allan i'r cyfarfod a fyddai'n cael ei osod cyn y ddadl ynghylch cydsyniad.

## 9 Briff ar y trefniadau ar gyfer Etholiadau'r Senedd 2021

Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio ar y trefniadau ar gyfer Etholiadau'r Senedd 2021, a thrafodwyd adroddiad diweddar y Grŵp Cynllunio Etholiadau. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Prif Weinidog i ofyn am eglurhad ar nifer o faterion yn ymwneud ag etholiad y Senedd yn 2021.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Masnach

Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Masnach, a chytunodd i drafod ei adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Marchnad Fewnol y DU: Trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ddrafft cyntaf ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Marchnad Fewnol y DU. Cytunodd y Pwyllgor i drafod adroddiad drafft diwygiedig yn y cyfarfod nesaf.